

Trosolwg

Monday, December 9, 2019 10:21 PM

Enw myfyriwr: Carys Jones

Rhif myfyriwr: 1003758

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.


Llwybr: Uwchradd

Dolen i'r OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1003758_student_uwtsd_ac_uk/Eqi8VljiJMjNhk9ch3-NV00BBwYzfi6JDq7Nj3l4KRVpA?e=RVwi2u

Asesu ar gyfer dysgu

Monday, December 9, 2019 10:22 PM

1. Meini prawf llwyddiant



Pyramide d'opinion - Ffordel nych
i ddarparu 2 broses o ffurfio
brawddegau estymedig ac i osod
disgryliadau uchel (+ meini prawf
llwyddiant i darg). Zgwahamiatu
gan ganiyniad, heb fod llym yn
amlygu i'r disgryliad.

Fe gynlluniais y meini prawf llwyddiant yma ar gyfer fy nosbarthiadau Ffrangeg

blwyddyn 7 lle'r ydym wedi bod yn astudio'r thema 'Au Collège' sef bywyd ysgol. Amcan y wers hon oedd i'r disgyblion defnyddio geirfa pynciau ysgol, mynegi a chyfiawnhau barn er mwyn ysgrifennu darn unigol yn sôn am ba bynciau ysgol maent yn hoffi/ddim yn hoffi, a'r rhesymau dros hyn. Penderfynais greu'r pyramid adeiladol isod er mwyn amlygu i'r disgyblion ba wybodaeth i gynnwys a sut i strwythuro eu brawddegau. Fel y gellir gweld o'r enghraifft o waith disgybl a hefyd adborth fy mentor, maent yn awgrymu bod y dull yma wedi bod yn llwyddiannus yn y ffordd yr oedd yn cefnogi'r disgyblion i ffurfio brawddegau estynedig yn hyderus wrth weithio eu ffordd i fyny pob cam o'r pyramid. Yn ogystal â hyn, yr wyf wedi llunio'r pyramid i wahaniaethu gan fy mod yn addysgu dosbarthiadau gallu cymysg. Mae'r goleadau traffig yn cynnig canlyniadau dysgu amrywiol ar sail y cynnwys e.e. brawddegau syml neu chymhleth. Roedd hwn yn caniatáu i'r disgyblion dewis y cynnwys (geirfa a strwythur) yr oeddent y mwyaf hapus a chyfforddus i ddefnyddio, gyda nifer yn herio'u hun i gyrraedd top y pyramid.

2. Meini prawf llwyddiant

Addysgu a Dysgu Craidd	Tasg 1 – Cyflwyno teitl y dasg ysgrifennu i'r disgyblion a dosbarthu esiampl o lythyr gorffenedig i bob un. Yna, esbonio i'r dosbarth bod ganddyn nhw tua 10 munud i ddarllen y darn a thrafod mewn gweithgaredd meddwl, paru-rhannu beth sydd yn dda amdano e.e. berffau yn yr amser gorffennol, cysyllteiriau, mynegiadau amser a barn, ansoddeiriau ayb. Tasg 2 – Arwain trafodaeth dosbarth cyfan i rannu syniadau yn dilyn tasg 1. Tasg 3 – Esbonio i'r disgyblion bod nawr angen iddyn nhw roi cynnig ar greu meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg hon yn dilyn y gweithgaredd meddwl-paru-rhannu gan sicrhau bod mynediad i bawb a ddigon o her. Byddwn yn cael trafodaeth fel dosbarth ac yn nodi syniadau ar y bwrdd gwyn rhwyngweithiol er mwyn greu'r meini prawf llwyddiant terfynol.	Tasg 1 – Disgyblion i fynd ati i drafod mewn paruau elfennau da'r lythyr gan greu anodiadau ar y darn i esbonio hyn. Tasg 2 – Disgyblion i rannu syniadau ynglŷn â beth maen nhw'n meddwl sydd yn dda am y darn a'r rhesymau dros hyn. Tasg 3 – Disgyblion i rannu syniadau ynglŷn â beth sydd angen iddyn gynnwys yn y darn ysgrifenedig er mwyn llywddio i ysgrifennu darn da. Erbyn y diwedd, byddan nhw wedi cytuno ar dri math gwahanol yn amrywio ar sail canlyniadau dysgu.	PwyntPwer/Bwrdd Rhwyngweithiol Esiampol o lythyr gorffenedig (un yr un).
--------------------------------------	---	--	---

Chère Isabelle,

Salut! Comment ça va? Moi je vais très bien. Je viens de retourner de Boulogne où j'ai passé le weekend. C'était super! Je suis restée chez ma tante. Elle a une grande maison au bord de la mer. Je suis arrivée vendredi soir et j'ai mangé au restaurant. J'ai pris du poisson et des frites et j'ai bu de l'eau. C'était délicieux!

Le samedi matin je suis allé en ville pour faire du shopping. J'ai acheté un pull noir et un jean. L'après-midi, il faisait beau, donc j'ai marché sur la plage avec le chien. Le soir j'ai regardé un film. C'était marrant!

Dimanche matin, j'ai nagé dans la piscine car il faisait trop chaud et l'après midi j'ai pris le train pour rentrer chez moi. Le train était ennuyeux.

Et toi, Comment as-tu passé le weekend dernier?

À bientôt,

Céline

Esiamp! o ateb fodel

Tasg ysgrifennu: Une lettre au correspondant

Eich tasg yw ysgrifennu llythr at ffrind sydd gennych yn Ffrainc am beth wnaethoch y penwythnos diwethaf.



- Cyflwyniad
- 4 gweithgaredd amrywiol (berfau yn yr amser gorffennol)
- Mynegi barn



- Cyflwyniad
- 6 gweithgaredd amrywiol (berfau yn yr amser gorffennol)
- Mynegi barn
- Cysyllteiriau/Gyda pwv?



- Cyflwyniad
- 8 gweithgaredd amrywiol (berfau yn yr amser gorffennol)
- Mynegi barn
- Cysyllteiriau/Gyda pwv?
- Tywydd



Defnyddiais dull ychydig yn wahanol o gyflwyno meini prawf llwyddiant i fy nosbarthiadau Ffrangeg blwyddyn 8 wrth iddynt ddysgu sut i ffurfio'r amser gorffennol er mwyn gallu sôn am beth wnaethon nhw dros y penwythnos diwethaf. Yn yr achos hwn, roedd angen i'r disgyblion creu'r meini prawf llwyddiant eu hun wrth drafod mewn ymarfer meddwl-paru-rhannu beth oedd yn dda am yr esiamp! fodel a ddarparwyd iddynt. Roedd yr ymarfer hyn wedi gweithio'n dda iawn yn y wers hon gan fod y disgyblion yn trafod eu barnau amrywiol, yn enwedig y drafodaeth dosbarth cyfan ar y diwedd ar gyfer

adrodd eu canfyddiadau ar gyfer adborth oherwydd roedd yn ymddangos ymdeimlad o gydweithio. Yn ogystal â hyn, roedd yr esiampl fodel yr oeddwn wedi creu hefyd yn cefnogi'r disgyblion i well deall gofynion y dasg er mwyn mynd ati i ysgrifennu yn hyderus. Uchod, gellir gweld y meini prawf llwyddiant yr oedd y disgyblion wedi cytuno i weithio oddi ar gan wahaniaethu a sicrhau mynediad a her i bawb o bob gallu.

3. Sesiwn lawn

Sesiwn Gloi	Tasg glo – Gêm Plickers i adolygu ac asesu dealltwriaeth y disgyblion ar gynnwys y thema hon hyd yn hyn. Byddaf yn defnyddio iPad yr adran i sganio atebion pobl unigolyn er mwyn gwneud gwiriadau ennys o ddealltwriaeth y dosbarth.	Tasg glo – Disgyblion i ymateb i gyfres o gwestiynau a fydd yn ymddangos ar y bwrdd rhyngweithiol gan dal eu cardiau personol i fyny i ateb A, B,C neu D.	Plickers - rhyngwrwyd, cardiau ar gyfer y disgyblion ac iPad
-------------	--	---	---

Les matières scolaires

83 %

7(3)

Played Tuesday 26 November 3:29 PM



STUDENT OVERVIEW

A-Z HIGH-LOW

100%	100%	75%	Abs.
Abs.	100%	75%	67%
Abs.	Abs.	33%	Abs.
50%	0%	100%	100%
75%	100%	67%	Abs.
Abs.	100%	Abs.	Abs.
75%	Abs.	Abs.	100%
100%	100%	100%	

Mae fy nefnydd o Plickers fel tasg glo yn y wers Ffrangeg blwyddyn 7 hon yn dystiolaeth o asesu ar gyfer dysgu. Roedd y wers wedi ffocysu ar ddatblygu dealltwriaeth a defnydd cywir y disgyblion o eirfa a strwythur brawddegau fel rhan o'r thema 'Au Collège' sef

bywyd ysgol. Yn bennaf, geirfa a brawddegau sydd yn ymwneud a phynciau ysgol a mynegi barn. Defnyddiais Plickers oherwydd mae'n ennyn diddordeb y disgyblion yn syth gan fod pob un yn derbyn carden ateb bersonol er mwyn ymateb i gyfres o gwestiynau ar y bwrdd rhyngweithiol. Er bod y disgyblion ddim yn defnyddio'r iPad eu hunan, roeddwn nhw'n mwynhau'n fawr y cyffro wrth i mi ei ddefnyddio ar gyfer sganio eu hymatebion unigol. Roedd y defnydd o Plickers hefyd yn ddull effeithiol o adolygu cynnwys y thema hyd yn hyn, yn ogystal ag asesu gyda'r ddau yn digwydd ar y cyd heb i'r disgyblion fod yn ymwybodol o hyn. Gellir gweld yn y llun uchod drosolwg o ganlyniadau'r disgyblion o'r cwestiynau yr oeddent wedi ateb yn ystod y dasg. Rhoddid hyn cyfle i mi adolygu'r dysgu trwy lygaid y disgyblion er mwyn gallu gwneud newidiadau lle bu angen a selio fy nghamau nesaf ar eu hymatebion nhw.



Tystiolaeth o fy nyddlyfr dysgu i gefnogi fy ymdrechion o fonitro, crwydro a chwestiynu effeithiol.

Man

9(3)

2/12/19

THEMA: GWYLIADU

Beth dyddodd?

Dechreuad da iawn i'r wraig, o ran strwythur y cyrwyngs a sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol. Parhau a dangos yr myfyr - cyrwyngs dechreuad i'w arodd i'r oed - a dechreuad da iawn o gwestiynau i ddethlygu dealltwriaeth y dysgwylwr o'r iaith mewn drefn o'r gwaith a'r addysg o'r ffen y dang. Dilysrwyd amlwg mewn myfyr o'r dang gychwynu'r man i'r dang mawr, sef penderfynu ym mha golofn i roi'r gairiau o'r dafn wraig.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Monday, December 9, 2019 10:22 PM

1. Llythrennedd

Tasg: Categoriwch y geiriau yn y tabl isod

<u>génial</u>	<u>mes amis</u>	<u>à la campagne</u>	<u>aller</u>	<u>en ville</u>	<u>fantastique</u>	<u>la pêche</u>
<u>en France</u>	<u>à la plage</u>	<u>manger</u>	<u>grand</u>	<u>le musée</u>	<u>au Portugal</u>	<u>au volley</u>
<u>nul</u>	<u>visiter</u>	<u>en juin</u>	<u>à Londres</u>	<u>en Espagne</u>	<u>faire</u>	<u>à la montagne</u>
<u>la piscine</u>	<u>en train</u>	<u>jouer</u>	<u>chouette</u>	<u>passer</u>	<u>pendant</u>	<u>l'année prochaine</u>
<u>une pizza</u>	<u>en bateau</u>	<u>un hôtel</u>	<u>au bord la mer</u>	<u>au Canada</u>	<u>puis</u>	<u>petit</u>
<u>aux Etats Unis</u>	<u>la planche à voile</u>	<u>pas mal</u>	<u>un château</u>	<u>les vacances</u>	<u>après</u>	
<u>au bord de la mer</u>	<u>au restaurant</u>	<u>ennuyeux</u>	<u>en avion</u>	<u>tous les jours</u>	<u>à Paris</u>	
<u>voir</u>	<u>ma famille</u>	<u>en été</u>	<u>à Noël</u>	<u>une caravane</u>	<u>rester</u>	<u>en voiture</u>
						<u>la ville</u>

Les pays Les villes Les endroits (lleoliad)	Les infinitifs (berfenwau)	Les noms (enwau/gweithgareddau)	Les adjectifs (ansoddeiriau)	Les adverbs (mynegiadau amser)

Cynlluniais y dasg yma fel rhan o wers Ffrangeg blwyddyn 9 ar y thema o wyliau lle mae'r disgyblion yn dysgu sut i ffurfio a defnyddio'r amser dyfodol ar gyfer sôn am wyliau y byddant yn cymryd yn y dyfodol. Bwriad y dasg benodol hon oedd datblygu ymwybyddiaeth iaith Ffrangeg y disgyblion fel eu bod yn gallu categorio'r geiriau amrywiol yn ôl eu gweithrediad. Er bod y disgyblion yn deall ystyr y geiriau, credaf ei fod yn hynod bwysig iddynt ymarfer meddwl am ba fath o eiriau maent yn delio gydag wrth ddefnyddio'r iaith Ffrangeg er mwyn gwell deall cydberthynas yr eirfa a'u

lleoliadau mewn brawddegau.

2. Rhifedd

En classe Lundi, onze novembre

Dans mon sac à dos, j'ai... / il y a...

Mon sac à dos coûte...

1. Ysgrifennwch frawddegau i ddisgrifio cynnwys y bagiau ysgol isod yn y bocs gwag.

2. Gyda chymorth y rhestr pris ar y sgrin, gwellthiwch allan pris pob bag.



Dans mon sac à dos, j'ai trois cahiers, et un crayon et deux stylos et ^{des} lunettes.

15.00€ ✓



Dans mon sac à dos, j'ai deux cahiers et ^{des} ciseaux et trois surligneurs et une calculatrice et une gomme et un stylo et un crayon et une règle.

23.50€ ✓



Dans mon sac à dos, j'ai ^{des} lunettes, et une trousse et deux taille-crayons et un cahier et deux gommes et ^{des} ciseaux et un surligneur.

20.50€ ✓

Dans mon sac à dos, j'ai... / il y a...
Mon sac à dos coûte...

• un cahier	2€	• un taille-crayon	2€
• une trousse	2.50€	• une calculatrice	4€
• un stylo	1.50€	• les ciseaux	3.50€
• un crayon	1€	• un surligneur	2.50€
• une gomme	0.50€	• les lunettes	5€
• une règle	1.50€		



Ceir tystiolaeth fan hyn o dasg wedi cynllunio i gynnwys rhifedd mewn gwers

Ffrangeg blwyddyn 7 ar y thema 'Au Collège' ag oedd yn ffocysu ar ddysgu a

defnyddio geirfa offer hanfodol yr ysgol/ystafell dosbarth. Roedd y dasg yma yn defnyddio cyd-destun dilys i ddatblygu sgiliau rhifedd, a hefyd llythrennedd, wrth i ddisgyblion gorfod creu brawddegau yn disgrifio cynnwys y bagiau o'r lluniau cyn mynd ati i weithio allan pris amrywiol y tri bag ysgol gan ddefnyddio'r rhestr pris a rhoddid iddynt.

3. Rhifedd

Sut gallwn ni osgoi yfed yn gormodol (binge drinking)?

Defnyddiwch y diodydd isod i greu amserlen yfed diogel ar gyfer dyn a menyw.


Mae Tia yn mynd i chwarae pwl gyda'i ffrind yn y dafarn nos Fawrth, mae mynd allan am fwyd gyda'i phartner nos Wener ac yn mynychu parti Noa Sadwrn. Mae hi yn 19 oed ac yn yfed mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae Dave yn gwylio pel droed gyda'i ffrindiau dydd Sul, chwarae darts yn y dafarn nos lau ac yn mynychu BBQ yn dy ei ffrind nos Sadwrn. Mae yn 21 mlwydd oed ac yn yfed mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Wythnos yfed diogel Tia						
Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul

Wythnos yfed diogel Dave						
Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul

— Canllaw Unedau Alcohol —

 Standard glass of wine (175ml) 11.5% ABV 2 units	 Large glass of wine (250ml) 12% ABV 3 units	 Bottle of wine (750ml) 12% ABV 9 units
 Pint of strong lager or beer 5.3% ABV 3 units	 Pint of normal strength lager or beer 3.5% ABV 2 units	 Can of normal strength lager (500ml) 4% ABV 2 units
 Spirits double (50ml) 40% ABV 2 Units	 Alcopop bottle (275ml) 5% ABV 1.4 units	 Spirits single (25ml) 40% ABV 1 unit

Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Carys Jones	Dosbarth:	8(1)
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Iechyd a Lles (ABCH)	Dyddiad:	04.12.19
Ffocws Gwers:	Alcohol		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	<u>Helpu dysgwyr i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles corfforol.</u> <u>Sut i gefnogi iechyd a lles corfforol.</u> <u>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o alcohol.</u> <u>Datblygu ymddygiadau cadarnhaol, gwybodus.</u>		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwriclaidd	<u>Llythrennedd: Datblygu eu sgiliau llythrennedd mewn cyd-destun pwysig wrth i ddysgwyr baratoi eu hunain ar gyfer bywyd y tu allan i addysg. Bydd dysgwyr yn ymgysylltu'n feirniadol ac yn cyfleu eu barn gyda mwy o hyder ac yn datblygu eu gwerthoedd ymhellach a fydd yn datblygu eu hyder.</u> <u>Rhifedd: Defnydd o gyd-destun y byd go iawn i gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd. Bydd dysgwyr yn dehongli gwybodaeth o ystod o ddiagramau er mwyn dod i gasgliadau ar ffactorau a allai ddylanwadu ar eu hiechyd a'u lles.</u>		

Beth sydd yn gwneud uned o alcohol?

https://www.alcoholhelpline.com/just-bath-on-drinking-help-with-alcohol-and-more/check-the-facts/facts-a-unit-of-alcohol/

1 UNED = 10 ML o alcohol pur

1 UNED gwydr bach o win

hanner peint

llyrmaid sengl

Oherwydd mae diodydd alcoholig yn dod mewn amrywiaeth o feintiau a chryfderau, mae defnyddio unedau yn ffurf dda o fesur pa mor gryf yw eich diod.

Beth yw'r terfynau ag argymhellir?

Ni ddylir yfed mwy na

14

uned o alcohol yr wythnos

Gyda rhyfel o ddyddiau heb unrhyw alcohol o gebl

Mae'n well lleadau hyn yn gyfartal ar draws 3 diwrnod neu fwy

6 peint o gwrw 4%

6 gwydr o win 13%

Llun Mawrth Mercher Iau Gwener Sadwrn Sul

Cafwyd cyfle i addysgu fy nosbarth cofrestru, blwyddyn 8, gwers ABCH ar Iechyd a Lles Corfforol gyda ffocws penodol ar alcohol. Cynlluniais felly'r dasg uchod ag oedd yn gofyn i'r disgyblion defnyddio eu sgiliau rhifedd wrth drin rhifau ar ffurf milimetrau, canrannau ac unedau. Yn ogystal â hyn, roedd angen iddynt ddadansoddi darnau ysgrifenedig, dehongli cyfres o ddiagramau ac ystyried pwrpas y tabl ar gyfer lwyddo yn y gweithgaredd hwn. Roeddwn wedi cynllunio ar gyfer esbonio yn gyntaf beth yw ystyr uned o alcohol ac ym mha ffyrdd gallant ymddangos e.e. gwydr o win, peint o gwrw fel bod y disgyblion yn gallu deall y terfynau a argymhellir. Hefyd, ceir tystiolaeth o ddatblygiad yn eu sgiliau llythrennedd wrth iddynt rannu eu


syniadau fel dosbarth cyfan ynglŷn â'r amserlennu yfed diogel yr oeddent wedi creu. Nid oedd un ateb yn benodol cywir felly roedd y dasg hon yn hybu trafodaeth bellach wrth iddynt gyfiawnhau eu penderfyniadau yn annibynnol. Braf oedd cael y cyfle i addysgu gwers fel hon oherwydd cefais fewnwelediad i'r nifer llai o rywstrau ieithyddol oedd gan y disgyblion wrth ddysgu trwy'r Gymraeg yn unig.

Cyd-destunau dilys

Monday, December 9, 2019

10:24 PM

1. Disgrifio cynnwys bag ysgol



Fe wnes i gynllunio'r dasg hon ar gyfer fy ngwers gyntaf yn dysgu Ffrangeg i flwyddyn 7. Tu fewn i'r thema 'Au Collège' sef bywyd ysgol, amcan y wers hon oedd dysgu geirfa newydd yn gysylltiedig ag offer hanfodol yr ysgol. Roedd y dasg hon yn gofyn i'r disgyblion dylunio bag ysgol eu hun yn cynnwys yr holl offer maent yn cario i'r ysgol ac yn defnyddio bob dydd ac yna'u disgrifio ar lafar I partner. Roedd y dasg yn llwyddiannus wrth dderbyn ymateb brwdfrydig wrth y disgyblion wrth iddynt wirio cynnwys eu bagiau yn yr ystafell dosbarth cyn mynd ati i lunio. Serch hynny, roedd nifer yn osgoi'r dasg lafar am rhesymau ynglun a pwy oedd yn rhaid iddyn nhw

gweithio gyda (o ganlyniad I cynllun eistedd, nid oedd dewis). Roedd yn dasg anodd
ceisio sicrhau bod pawb yn ymarfer o leiaf ambell frawddeg gyda fi wrth I mi
grwydro. Rhaid cyfaddef bod tasgau llafar yn heriol yn aml o fewn gwersi iaith gan
bod y disgyblion yn cynhyrfu ac yn drafod unrhyw beth ond am y gwaith eu hun.
Efallai yn y dyfodol, bydd yn gwell neud gwaith llafar fel dosbarth cyfan, gyda
disgyblion yn cymryd eu tro I ddod allan i'r blaen I gyfrannu at y dasg.

2. Myneqi barn am bynciau ysgol

Addysgu a Dysgu Craidd	Tasg 1 – Cyflwyno ac esbonio'r pyramid adeiladol fel meini prawf llwyddiant a fydd yn amlwg i'r disgyblion ba wybodaeth i gynnwys a sut i strwythuro eu brawddegau ar gyfer darn ysgrifenedig yn mynegi a chyfiawnhau barn dros bŷ bynciau ysgol maent yn hoffi/ddim yn hoffi. Byddaf yn darparu copïau o'r pyramid i bob disgybl.	Tasg 1 – Disgyblion i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r pyramid a bydd hwn yn sicrhau dealltwriaeth o ofynion y dasg a sut i'w ddefnyddio yn effeithiol. Mae'r pyramid wedi llunio i wahaniaethu a herio gan fod camau gwahanol iddo ar sail y cynnwys megis brawddegau syml a chymhleth. Gall y disgyblion dewis y cynnwys (geirfa a strwythur) maent yn hapus a chyfforddus i ddefnyddio.	PwyntPwer/Bwrdd Rhwyngweithiol Copï o'r pyramid adeiladol
------------------------------	---	---	--

Les opinions – Mynegi barn



J'adore



J'aime beaucoup



J'aime



Je n'aime pas



Je n'aime pas du tout



Je déteste

Mae'r ciplun uchod o gynllun wers ar gyfer dosbarth Ffrangeg blwyddyn 7 yn
dystiolaeth o fy ymdrechion i gynllunio gan gynnwys tasg gyda chyd-destun yn
berthnasol i'r disgyblion. Hynny yw, tasg ysgrifenedig yn sôn am ba bynciau ysgol
maent yn hoffi/ddim yn hoffi, a'r rhesymau dros hyn. Dros y gwersi diwethaf, mae'r

disgyblion wedi dysgu geirfa newydd yn gysylltiedig â phynciau ysgol, mynegi barn ac ansoddeiriau. Braff oedd gweld ymdrech y disgyblion yn ystod y wers hon wrth iddynt gael y cyfle i ysgrifennu am farn eu hun ynglŷn â gwersi dyddiol yr ysgol a sut maent yn teimlo amdanynt. Roedd pawb yn ddigon hyderus yn cyfathrebu eu rhesymau dros hoff bynciau a rheini maent yn casáu. I gefnogi'r dasg hon, defnyddiais gyfres o 'Apple Emoji's' i gynrychioli teimladau gwahanol wrth geisio hyrwyddo'r broses o ffurfio brawddegau. Cafodd yr 'Emoji's' ymateb da gan fod y disgyblion yn gallu creu ystyr o'r gair yn syth o ganlyniad i'r lluniau maent yn hen gyfarwydd â oddi ar eu ffonau symudol.

3. Trafod y penwythnos diwethaf

Tasg ysgrifennu: Une lettre au correspondant

Eich tasg yw ysgrifennu llythyr at ffrind sydd gennych yn Ffrainc am beth wnaethoch y penwythnos diwethaf.



- Cyflwyniad
- 4 gweithgaredd amrywiol (berfau yn yr amser gorffennol)
- Mynegi barn



- Cyflwyniad
- 6 gweithgaredd amrywiol (berfau yn yr amser gorffennol)
- Mynegi barn
- Cysyllteiriau/Gyda pwv?



- Cyflwyniad
- 8 gweithgaredd amrywiol (berfau yn yr amser gorffennol)
- Mynegi barn
- Cysyllteiriau/Gyda pwv?
- Tywydd



Ceir tystiolaeth fan hyn o dasg sydd wedi cynllunio ar gyfer wers Ffrangeg blwyddyn 8 yn seiliedig ar brofiadau personol y disgyblion. Hynny yw, trafod beth oeddent wedi gwneud dros y penwythnos. Rhoddid y dasg hon cyd-destun i'r gwaith mae'r

disgyblion wedi gwneud ar ddysgu rheolau gramadegol yr amser gorffennol er mwyn eu ffurfio a'i defnyddio. Roedd hwn bendant yn ennyn diddordeb y disgyblion wrth iddynt fwynhau'r sialens o gymhwyso'r rheolau gramadegol er mwyn gallu ysgrifennu am yr holl weithgareddau yr oeddent wedi gwneud, y bwyd yr oeddent wedi bwyta, a'r llefydd yr oeddent wedi mynd dros y penwythnos. Rwy'n teimlo fy mod wedi gwneud cynnydd o enghraifft eglurhaol 2 gan fod y dasg yma yn ymestyn y plant i fynegi barn am brofiadau yn ogystal â theimladau.

Adfyfyriad beirniadol

Monday, December 9, 2019 10:24 PM

Cyflwyniad

Mae Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru gan

Donaldson (2015) yn awgrymu bod addysgu a dysgu da cael ei arwain gan 12 egwyddor

addysgegol wedi'u chefnogi gan athrawon sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu

ystyrlon wrth gyfuno gwybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol er mwyn sicrhau

dysgu effeithiol. Argymhella Donaldson (2015) bod angen cynllunio'n uniongyrchol â'r

egwyddorion er mwyn sicrhau cynnydd tuag at gyflawni dibenion y *Cwricwlwm i Gymru*

2022. Cefnogir y farn hon dros bwysigrwydd cynllunio arbenigol gan Lemov (2015), sydd yn

dweud bod cynllunio yn allweddol i addysgu effeithiol a'i bod yn amhosib cyflawni cynllunio

llwyddiannus os nad oes ffocws yn cael ei rhoi ar y gweithrediad o'r egwyddorion. Yn ystod y

rhan gyntaf o fy Mhrofiad Addysgu Proffesiynol (PAP), mewn ysgol Uwchradd gymunedol yn

ardal wledig De Cymru, rhoddid ffocws ar y weithrediad o'r tair egwyddor addysgegol sydd

yn ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a chyd-destunau dilys.

Byddaf yn canolbwyntio'r aseiniad yma ar fy ymdrechion o fabwysiadu'r tair egwyddor

benodol yma yn fy addysgu ar draws CA3, ac yn adfyfyrio ar y cynnydd wedi gwneud cyn

trafod argymhellion ar gyfer datblygiad pellach yn y meysydd yma.

Adolygiad Llenyddiaeth / Casgliadau ar sail cynnydd

Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.

Yn ôl Donaldson (2015), gellir deall effeithiolrwydd y dysgu sydd yn digwydd tu fewn i'r ystafell dosbarth wrth ddefnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu (AagD). Ceir tystiolaeth o dros 250 o astudiaethau gan Black a Wiliam sydd yn cysylltu asesu gyda dysgu fel un o'r arfau addysgol mwyaf cryf (ARG, 1999). Yn ogystal â hyn, bodola corff o llenyddiaeth sydd yn dangos bod AagD yn cael effaith enfawr ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion ar draws pynciau ac oedrannau gwahanol (Wiliam, 2011). Cred Black a Wiliam (1998) bod cryfhau arferion AagD yn yr ystafell dosbarth ar gyfer hybu dysgu yn achosi enillion dysgu sylweddol. Gadewch i ni ddechrau drwy ystyried y llenyddiaeth ynglŷn â beth yn gwmws mae AagD yn ei olygu. Yn gyntaf, cynigia Black a Wiliam (1998) diffiniad o AagD fel yr amgylchyniad o'r holl weithgareddau a gwnaed athrawon, a/neu ddisgyblion, sydd yn darparu gwybodaeth i'w defnyddio fel adborth ar gyfer addasu'r gweithgareddau addysgu a dysgu y maent yn cymryd rhan ynddynt. O gymharu â hyn, mae llenyddiaeth gan Cowie a Bell (1999) yn mynnu bod AagD yn broses a ddefnyddir gan athrawon a disgyblion ar gyfer adnabod ac ymateb i'r dysgu er mwyn gwella'r dysgu hyn ar yr union foment honno. Hynny yw, gweithrediad yn ystod y cyfarwyddyd. Yn yr un modd, mae adolygiad o arfer gan y Canolfan ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd Addysgol fel rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD, 2005) yn diffinio AagD fel asesu rhyngweithiol a rheolaidd o gynnydd a dealltwriaeth disgyblion er mwyn nodi'r anghenion dysgu ac addasu'r addysgu yn briodol. Down i'r casgliad felly mae prif bwrpas AagD yw gwella safonau a helpu adnabod y camau nesaf (Wiliam, 2011). Mae rôl athrawon wrth ddilyn yr egwyddor hon yn arwain disgyblion gyda'r datblygiad o'u sgiliau dysgu eu hun wrth

gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a chynnydd unigol ar gyfer cwrdd â nodau dysgu gydol oes (OECD, 2005).

Ar ddechrau PAP 1, rhaid nodi sut oedd gwahaniaethu a gosod gwaith ar y lefel briodol i alluoedd cymysg fy nosbarthiadau yn rhywbeth ag achosai drafferth i mi oherwydd nad oeddwn yn adnabod y dysgwyr a'u gwahanol anghenion er mwyn gallu arddangos arferion effeithiol o asesu er budd y disgyblion. Yn ôl Tomlinson (2001), mae gwahaniaethu yn ystafelloedd dosbarth yn fframwaith sydd yn annog athrawon i addasu eu harfer addysgu ac asesu er mwyn ymateb i gryfderau ac anghenion pob unigolyn. Roedd hwn felly yn rhywbeth nad oeddwn yn gwneud fel darpar-athrawes i ddechrau, ond yn gyflym iawn deuthum yn fwy cyfarwydd â'r galluoedd cymysg a sylweddolais mai'r ffordd gorau i ddelio a hyn oedd cynllunio'n fwy effeithiol wrth osod canlyniadau dysgu gwahanol i'r disgyblion ar sail meini prawf llwyddiant. Fe wnaed hyn wrth hefyd ystyried y llenyddiaeth sydd yn honni bod dysgu llwyddiannus yn digwydd pan mae gan ddisgyblion perchnogaeth o'u ddysgu oherwydd eu bod yn deall yr amcanion ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r sgiliau perthnasol i wneud cynnydd (Hattie, 2009). Mae Clarke (2008) hefyd yn awgrymu bod gosod amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn galluogi disgyblion i gael pŵer dros eu dysgu fel eu bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau ac yn deall sut i gyflawni.

Dengys tystiolaeth o lwyddiannau'r dull hwn o AagD yn enghreifftiau eglurhaol 1 a 2 ar gyfer yr egwyddor hon. Mae sylwadau fy mentor pwnc yn fy nyddlyfr dysgu'n adlewyrchu canlyniadau positif fy ngweithrediad o hyn yn enghraifft eglurhaol 1. Wrth i'r lleoliad datblygu ac wrth i mi barhau i gynllunio gan osod meini prawf llwyddiant â chanlyniadau dysgu

gwahanol, gynlluniais dasg ysgrifennu ar gyfer blwyddyn 8 lle'r oedd angen i'r disgyblion creu'r meini prawf llwyddiant eu hun trwy rhannu arferion da ar sail beth sydd yn gwneud meini prawf llwyddiant da gyda mynediad i bawb. Awgryma Hattie (2009) bod dangos disgyblion beth mae llwyddiant yn edrych fel cyn iddynt ddechrau yn cefnogi dysgu gweladwy a gweithredol. Wedi dweud hyn, yn ôl Christodoulou (2016) ni allwn dybio bod dangos gwaith rhagorol yn ddigon i ddatblygu rhagoriaeth. Serch hynny, roedd ddefnyddio dull Hattie (2009) a chynnal tasg ymarferol fel hyn i werthuso dealltwriaeth y disgyblion yn galluogi iddynt arwain dysgu eu hun wrth iddynt ddysgu sut i adnabod elfennau ysgrifenedig da a deall y disgwyliadau cyn mynd ati i weithio'n annibynnol oddi ar y meini prawf llwyddiant mwyaf addas iddyn nhw (gweler enghraifft eglurhaol 2).

Yna, roeddwn yn teimlo bod angen ystyried dulliau AagD mwy amrywiol er mwyn gwell dadansoddi dealltwriaeth y disgyblion yn fy ngwersi. Er mwy esbonio hwn, dywed Didau (2015) bod cymryd saib yng nghanol gwersi i wirio dealltwriaeth disgyblion yn rhan annatod o addysgu a sylweddolais nad oeddwn yn gwneud digon o hwn. Er fy mod yn derbyn sylwadau wrth fy mentor pwnc ynglŷn â chwestiynu, crwydro a monitro effeithiol yn ystod gwersi (gweler enghreifftiau eglurhaol 3), roedd ymchwil pellach wedi adlewyrchu pwysigrwydd sesiynau lawn ar gyfer asesu dealltwriaeth y disgyblion. Dywed Beadle (2012) bod bodolaeth sesiwn lawn yn helpu disgyblion gofio'r hyn maent wedi dysgu. Cynigia Hattie (2012) yr un farn wrth nodi ei fod yn hanfodol gwirio dealltwriaeth y disgyblion, a bod gwneud hyn ar ddiwedd y wers yn dueddol o fod yr amser mwyaf addas. Yn deillio o hyn, fe gynlluniais wers i gynnwys Plickers; gweithgaredd ag oedd yn ymddangos i'r disgyblion fel

gem hwyl ond yn ddull defnyddiol o asesu, cofnodi a gweithredu ar unrhyw gamsyniadau. Yn ôl Beadle (2012), dyma union bwrpas sesiwn lawn; i asesu a rhoi adborth er mwyn cysylltu un wers ar un nesaf fel bod sylfaen cadarn ar gyfer symud ymlaen a'r dysgu. Yn ogystal â'r cyfle i ehangu eu gwybodaeth o'r geirfa a gramadeg, mae Beadle (2012) yn honni mae'r peth gorau y bydd disgyblion yn cael allan o sesiwn lawn yw dealltwriaeth o'r hyn nad ydyn nhw'n ei wybod.

Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys

llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer

Mae codi safonau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi bod yn flaenoriaeth mewn ysgolion yng Nghymru trwy gydol cylch arolygu 2010-2017 Estyn. Hefyd, yn dilyn Adolygiad Donaldson (2015), ac fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer *Cwricwlwm i Gymru* 2022, nodwyd y sgiliau trawsgwricwlaidd hyn fel rhai hollbwysig i'w hymgorffori ym mhrofiad dysgwyr ar draws eu holl ddysgu. Hynny yw, dylid yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) darparu cyfle da i'r dysgwyr ddatblygu, ymestyn a chymhwyso'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm yn ystod y broses addysgu a dysgu (Llywodraeth Cymru, 2019). Ar gyfer canolbwyntio ar ddatblygu lefelau uchel o gymhwysedd yn y sgiliau hyn, darparwyd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) a Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) newydd i helpu athrawon i gyflawni'r nod hyn (Estyn, 2017). Yn ôl Ofsted (2018), mae'r

sgiliau trawsgwricwlaidd yn hanfodol er mwyn i bobl ifanc allu cyflawni eu potensial os ydynt am fynd i'r sector addysg uwch neu ymuno â'r byd gwaith. Gwŷr pawb felly bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb proffesiynol i bob athro.

Wrth gychwyn ar PAP 1, roeddwn yn deall pwysigrwydd y ddyletswydd statudol sydd dros y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd wrth gyfeirio at y *Cwricwlwm i Gymru 2022* a'r Safonau

Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth (SAC) ac felly yn ymwybodol o fy rôl annatod o

sicrhau fy mod yn cynllunio cynnydd ar draws yr holl ystod o sgiliau. O ganlyniad i fy ngwaith cynllunio tu fewn i'm bwnc arbenigol, ymddangosa llythrennedd wrth wraidd y MDaPh

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu gan fod y sgiliau yma yn cael eu haddysgu'n

benodol. Caniatâ hwn felly i mi gyfrannu at ddatblygiad y sgil mewn ffordd hynod 'naturiol a

dilys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol' (Donaldson, 2015, tud. 69). Gellir cymharu

hyn a barn Didau (2014) a Barton (2013) ynglŷn â llythrennedd a hynny'n un sydd yn dadlau

bod dim y fath beth â llythrennedd, ond addysgu a dysgu da gan ei fod yn digwydd yn

ddifeddwl heb fod yn ychwanegiad dewisol. Mae fantra llythrennedd gan Sampson (1921),

guru addysgol, hefyd yn honni: 'Every teacher in English is a teacher of English'. Hynny yw,

wrth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, rwyf yn addysgwr o'r Gymraeg hefyd. Yn wyneb hyn,

mae'r datblygiad o sgiliau llythrennedd felly yn sylfaenol i wersi gan fod disgyblion yn deall yr

hyn ag addysgwyd trwy ddarllen a gwranddo ac yna yn arddangos y ddealltwriaeth hon trwy

ysgrifennu a siarad (Didau, 2014).

At hyn, gellir cyfeirio at enghraifft eglurhaol 1 lle'r oeddwn wedi cynllunio tasg gramadeg ar

gyfer adeiladu ar sgiliau llythrennedd blwyddyn 9 o'r rheolau sy'n rheoli'r cydberthnasau

rhwng geiriau mewn iaith. Addysgir gramadeg mewn perthynas ag ysgrifennu gan amlaf, oherwydd disgwylir cywirdeb gan ddarllenwyr o'r ffurf ysgrifenedig safonol, a disgwylir cywirdeb gan ddarllenwyr (Llywodraeth Cymru, 2013). Wrth adfyfrio ar y dasg o gategoreiddio geirfa, nid oeddwn wedi ystyried pa mor heriol byddai nifer unigolion yn gweld y dasg am nad oedd ganddynt y ddealltwriaeth o ramadeg yn y Gymraeg i ganiatáu iddynt allu gwneud hwn mewn iaith dramor. Mae Hattie (2012) yn nodi pwysigrwydd athrawon yn adnabod eu dysgwyr a'r wybodaeth sydd ganddynt wrth baratoi gwersi gan fod angen dealltwriaeth drylwyr o'r hyn maent yn gallu'u wneud. O ganlyniad, rwy'n sylweddoli byddai cynllunio wers ar ymwybyddiaeth iaith er mwyn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gramadeg, er enghraifft beth yn union yw berf, berfenw, arddodiad, adferf a.y.b. wedi bod yn fuddiol iawn i ddatblygu dealltwriaeth y dosbarth a galluogi'r disgyblion ysgrifennu yn ramadegol cywir fel yr amlinellir yn y FfLIRh. Yn bendant rhywbeth i ystyried wrth symud ymlaen.

Yn wahanol i lythrennedd, gall fod yn anodd cynllunio i gynnwys rhifedd mewn pwnc sydd yn seiliedig ar ddysgu iaith. Wedi dweud hyn, mae enghraifft eglurhaol 2 yn esiampl nodedig o'r defnydd o rifedd tu fewn i wers iaith. Wrth i mi ystyried y ffaith bod disgyblion blwyddyn 7 newydd ddysgu eu rhifau yn Ffrangeg, a'r pwyslais mawr mae Donaldson (2015) yn rhoi ar ddilyniant gan argymhell bod angen i athrawon osod tasgau sy'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac yn ennyn diddordeb, fe gynlluniais dasg ariannol mewn cyd-destun perthnasol.

Fel y noda yn y *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* (2019), mae rhifedd yn un o fedrau hanfodol bywyd sy'n galluogi dysgwyr i gymhwyso

ffeithiau a rhesymau rhifiadol i broblemau a thestunau go iawn. Ymhellach, wrth i ddysgwyr ddefnyddio rhifau mewn ieithoedd eraill bydd hyn yn ei dro yn atgyfnerthu dysgu a sgiliau rhifedd y pen ac ysgrifenedig. Er bod tystiolaeth o lwyddiant disgybl yn y dasg yn enghraifft eglurhaol 2, roedd nifer yn gweld gweithio gyda geirfa a rhifau yn her, ac nid oeddwn wedi ystyried yr amser byddai angen arnynt i gwblhau'r dasg. Wedi dweud hyn, mynna Dweck (2000) ein bod yn dysgu trwy heriau a bod hyrwyddo her ac ymdrech yn gysylltiedig â datblygu meddylfryd twf ac felly yn bethau bydd yn rhaid i mi gynllunio'n fwy addas ar eu cyfer. Bydd gen i gyfle i ddatblygu ymhellach fy sgiliau cynllunio i gynnwys rhifedd wrth i flwyddyn 7 symud ymlaen i ddysgu sut i ddweud yr amser yn ystod Bloc 2 PAP 1.

Tua diwedd fy mhrofiad addysgu cyntaf, daw cyfle i mi addysgu gwers ABCH, fel y'i nodir yn enghraifft eglurhaol 3, a ddarparwyd cyfle i ddysgwyr feithrin eu sgiliau llythrennedd a rhifedd wrth drafod barn a dehongli data a gwybodaeth mewn ffordd gynyddol hyderus. Mae Corbett (2011) yn awgrymu bod siarad cyn cychwyn ar dasg yn gwella sgiliau llythrennedd, sydd yn dro yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu safbwyntiau a gwerthoedd er mwyn dod i gasgliadau gwybodus am ffactorau ag gall ddylanwadu ar eu hiechyd a'u lles yn ystod bywyd y tu hwnt i addysg.

Mae addysgu a dysgu da yn creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu

Un o agweddau pwysicaf yr egwyddor hon yw bod dysgwyr yn gweld bod eu dysgu'n berthnasol ac yn ystyrlon (Donaldson, 2015). Hynny yw, bod athrawon yn addysgu wrth

ddod a'r byd i mewn i ystod (Waters, 2013) fel bod plant yn cael y cyfle i greu cysylltiadau gyda'r byd y tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, er bod llawer o athrawon yn cytuno bod angen i ddysgwyr brofi'r byd go iawn, gall datblygu profiadau'r byd go iawn yn yr ystafell ddosbarth fod yn anodd (Laur, 2013). Yn yr un modd, dywed Toh et al. (2014) fod 'bridging the gap' (tud. 68) rhwng y profiad dysgu a chymhlethdod y byd go iawn yn her gyson i addysgwyr. Tra bod y ddadl hon efallai'n gywir, rhaid nodi bod yr egwyddor yma yn ddull pedagogaidd effeithiol wrth ganiatáu i ddisgyblion archwilio, trafod ac adeiladu cysyniadau a pherthnasoedd yn ystyrlon mewn cyd-destunau sy'n cynnwys senarios y byd go iawn ac sy'n berthnasol i'r dysgwr (Donovan, Bransford, & Pellegrino, 1999). Dylid cyfeirio fan hyn at ddamcaniaeth dysgu Piaget (1976) a'i chysyniad o ddysgu yn seiliedig ar brofiad. Mynna'r safbwynt adeiladol hyn bod rhaid i blant fod yn weithredol er mwyn cymryd rhan mewn dysgu go iawn. Esiampl o hyn yw ein plant a phobl ifanc yn cysylltu gwybodaeth newydd gyda'u dealltwriaeth flaenorol ac o hyn greu ystyr bersonol allan o ddigwyddiadau a rhyngweithio go iawn (Piaget, 1976). Ceir llenyddiaeth sydd hefyd yn honni bod angen ymgorffori strategaethau addysgu a dysgu mwy dilys a chymhwysol mewn amgylcheddau dysgu ar gyfer arloesi proses ddysgu dysgwyr (McFarlane, 2015). Nid yn unig i sicrhau ymgysylltiad dysgwyr, ond wrth ystyried yr ymchwil sydd yn honni bod y profiadau sydd ddim yn annog plant i wneud ystyr o'u dysgu yn cael eu hanghofio'n gyflym (Pearce, 2016).

Ar sail fy nghynllunio hyd yn hyn, roeddwn yn aml yn gweld hi'n dasg heriol o geisio darparu cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn eu gwersi Ffrangeg i sefyllfaoedd priodol a naturiol gan fod iaith wedi'i greu o eirfa a gramadeg sydd angen eu haddysgu'n


drylwyr ar gyfer cyfathrebu yn llwyddiannus. Oblegid hyn, gellir gweld o fy enghreifftiau eglurhaol fy mod i wedi ceisio ymestyn y themâu i gynnwys elfennau personol i'r disgyblion.

Yr hyn sylweddolais o'r dasg yn enghraifft eglurhaol 1 oedd bod y dasg ddim mewn gwirionedd yn atgyfnerthu'r eirfa newydd a ddysgwyd y disgyblion. Er bod y dasg yn un ymarferol ac yn ennyn diddordeb y plant wrth iddynt dylunio, nid oedd y mwyafrif yn ymgymryd a'r weithgaredd llafar. O hyn, teimlais fod angen datblygu fy nghynllunio i gynnwys tasgau o gwell ddyfnder. Mae enghraifft eglurhaol 2 yn esiampl o dasg gyda pwyslais ar hybu mwy o gyfraniad wrth y disgyblion gan ofyn iddynt mynegi barn er mwyn llwyddo i ddod a syniadau haniaethol yn fyw (Donaldson, 2015). Mae fy nefnydd o luniau hefyd yn cael eu cefnogi gan ymchwil sydd yn dangos bod dysgwyr yn cofio geiriau'n well pan maent yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â lluniau ac yn ychwanegu at y cyd-destun (Smith, 2018). Yn ôl Smith a Conti (2016), os mae'r defnydd o luniau yn ennyn rhyw fath o ymateb emosiynol gan y plant, maent felly yn llwyddo i ddarparu ysgogiad effeithiol ar gyfer gwaith iaith. Ceir tystiolaeth o hyn yn ystod y wers hon. Ymhellach, mae enghraifft eglurhaol 3 yn esiampl o gynllunio gan greu cyd-destun dilys sydd yn berthnasol i brofiadau'r dysgwyr. Wrth ddarparu cyfle i'r disgyblion gymhwyso rheolau gramadegol yr amser gorffennol ar gyfer sôn am yr hyn gwnaethant dros y penwythnos, ymgorfforwyd felly y gramadeg mewn cyd-destun ystyrlon.

At y drafodaeth hon, dylid cyfeirio at ddamcaniaeth dysgu Jim Cummins (1984) a'i greadigaeth o '*The Cummins' Quadrants Model*' sydd yn darparu fframwaith ar gyfer athrawon i wneud dysgu'n berthnasol (gweler Ffigur 1). Mae'r model yn rhannu dysgu mewn

i bedwar pedrant o weithgareddau sydd yn dangos bod rôl gosod cyd-destun yn hanfodol i gefnogi datblygiad dealltwriaeth.

Ffigur 1



Er mwyn egluro hyn, gellid ystyried enghraifft eglurhaol 3 fel gweithgaredd yn bedrant B gan fod cyd-destun wedi'i fewnosod i dasg heriol yn wybyddol. Mae'r model hyn yn cadarnhau bod darparu cefnogaeth gyd-destunol yn cynnig cliwiau i ystyr ac yn yr achos hwn, yn helpu dysgwyr deall i ba bwrpas oeddent yn dysgu'r amser gorffennol wrth i gysylltiadau a'r byd tu allan cael eu gwireddu.

Argymhellion ar gyfer datblygiad pellach

Wrth dynnu tua'r terfyn, mae'r aseiniad yma wedi galluogi i mi adfyfrio ar y cynnydd wedi gwneud o ran cynllunio a gweithredu'r tair egwyddor addysgegol. Gwnaed hyn trwy ymgysylltu a llenyddiaeth a gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddiwyd er mwyn tanlinellu'r hyn sydd angen ddatblygu ymhellach. Down i'r casgliad felly o'r meysydd sydd angen i mi ganolbwyntio arnynt wrth gychwyn ar Bloc 2.

Yn gyntaf, fy mhrif darged ar gyfer datblygiad pellach ar sail dilyn egwyddorion AagD yw sicrhau fy mod yn cyfleu dealltwriaeth gadarn o ystod o arferion asesu. Yn bennaf, canolbwyntio ar ddatblygu fy nefnydd o ddulliau hunanasesu. Yn ôl Wiliam (2011), mae hunanasesu yn effeithiol wrth ganiatáu i ddisgyblion ddatblygu mewnwelediadau digonol i'w dysgu eu hunain ar gyfer eu gwella. Yn yr un modd, cynigia Black a Wiliam (1998) bod angen i ddisgyblion cael eu hyfforddi mewn hunanasesu fel y gallant ddeall prif ddibenion eu dysgu a thrwy hynny amgyffred yr hyn y mae angen iddynt eu gwneud nesaf. Ymhellach, awgryma Christodoulou (2016) bod hunanasesu yn datblygu gallu disgyblion i adnabod y gwahaniaeth rhwng cymhwysedd ac anghymhwysedd, sy'n bwysig wrth ddatblygu eu gallu i ganfod ansawdd. Serch hynny, mae'n rhaid i ni gofio bod angen cynllunio tasgau hunanasesu o fewn lefel cymhwysedd ein disgyblion.

Yn ail, mewn byd mwy datblygedig o ran technoleg, ni ellir anwybyddu'r ffaith bod codi safonau sgiliau chymhwysedd digidol ein pobl ifanc yn bwysicach nag erioed (Williams, 2017). Rhaid cyfaddef bod angen i mi wneud cynnydd wrth gynllunio i gynnwys y cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd hwn yn benodol yn wersi'r dyfodol. Cynigia Toh et al. (2014) y farn fod technoleg ddigidol yn gallu dod yn bartner deallusol i ddisgyblion a'u helpu i ddadansoddi, syntheseiddio a threfnu eu gwybodaeth. Mae technoleg ddigidol hefyd yn newid y ffordd yr ydym yn cyfathrebu, creu, rhannu a defnyddio gwybodaeth a hefyd cyflwyno ein hunain (McFarlane, 2015). Rwy'n teimlo felly bod angen mynd ati i gynllunio ar gyfer darparu cyfleoedd i ddisgyblion harfer a chryfhau'r cymhwysedd er mwyn helpu nhw datblygu sgiliau hanfodol yr 21ain ganrif hon megis meddwl yn feirniadol, cydweithredu, creadigrwydd, datrys

problemau a.y.b. (McFarlane, 2015); y sgiliau ehangach sydd yn unol â dibenion y cwricwlwm newydd (Donaldson, 2015).

Yn olaf, gellir mynd mor bell a chysylltu cymhwysedd digidol gyda dysgu dilys gan ystyried y llenyddiaeth sydd yn honni bod yr ymddangosiad o dechnolegau newydd yn cynnig profiad dysgu mwy dilys i ddisgyblion ar sail arbrofi i ddatrys problemau byd go iawn (Toh et al., 2014). Fel yr wyf wedi sôn yn barod, mewn byd gynyddol dechnolegol, rhaid sicrhau bod addysg yn paratoi ein disgyblion yn ddigonol ar gyfer bywyd economaidd a chymdeithasol oedolyn. O ganlyniad, rhaid i addysg felly bod yn berthnasol i ddisgyblion trwy ffocysu ar ddatblygu lefelau uchel o gymhwysedd digidol ar yr un pryd â chreu cyd-destunau dilys. I gefnogi'r ymdrechion hyn, byddaf yn sicrhau cynnydd wrth gynllunio gyda mwy o bwyslais ar gysylltu'r hyn mae'r disgyblion yn dysgu yn yr ysgol gyda materion a heriau byd go iawn trwy gyflwyno themâu y gallant eu harchwilio fel bod y profiad dysgu yn adlewyrchu cymhlethdodau ac amwysedd bywyd go iawn (Pearce, 2016). Bydd y gweithrediad hwn yn galluogi dysgwyr i ddelio â sefyllfaoedd anghyfarwydd lle mae'n rhaid iddynt ddatrys problemau, addasu ymddygiadau a gwneud penderfyniadau; galluoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol (Williams, 2017).

1. Assessment Reform Group (1999) *Assessment for Learning: Beyond the black box*. University Cambridge School of Education.
2. Barton, G. (2013) *Don't Call it Literacy! What every teacher needs to know about speaking, listening, reading and writing*. Llundain: Routledge.
3. Beadle, P. (2012) *The Book of Plenary: Here Endeth the Lesson*. Caerfyrddin: Independent Thinking Press.
4. Black, P. J. & Wiliam, D. (1998) *Inside the black box: Raising standards through classroom assessment*. King's College.
5. Christodoulou, D. (2016) *Making Good Progress? The future of Assessment for Learning*. Llundain: Oxford University Press.
6. Clarke, S. (2008) *Active Learning Through Formative Assessment*.
7. Corbett, P. & Strong, J. (2011) *Talk for Writing Across the Curriculum*. Berkshire: Open University Press.

8. Cowie, B. & Bell, B. (1999) *A Model of Formative Assessment in Science Education*. *Assessment in Education: Principles, Policy & Practice*, 6(1), tt.101-116.
9. Cummins, J. (1984) *Bilingualism and Special Education: Issues in Assessment and Pedagogy*. San Diego: College-Hill Press.
10. Didau, D. (2014) *The Secret of Literacy: Making the implicit explicit*. Caerfyrddin: Crown House Publishing Ltd.
11. Didau, D. (2015) *What if everything you knew about education was wrong?* Caerfyrddin: Crown House Publishing Ltd.
12. Dweck, C. (1999) *Self-Theories: Their Role in Motivation, Personality, and Development*. Psychology Press.
13. Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Crown Copyright. Ar gael ar lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> [cyrchwyd: 20/12/2019]

14. Donovan, M. S., Bransford, J. D., & Pellegrino, J. W. (1999) *How People Learn: Bridging Research and Practice*. Washington: National Academy Press.
15. Estyn. (2017) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017*. Ar gael ar lein:
https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Annual%20Report_Welsh_Accessible.pdf [cyrchwyd: 02/01/2020]
16. Hattie, J. (2009) *Visible Learning: A synthesis of over 800 meta-analyses relating to achievement*. Llundain: Routledge.
17. Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers: Maximising Impact on Learning*. Abingdon: Routledge.
18. Laur, D. (2013) *Authentic Learning Experiences: A Real-World Approach to Project-Based Learning*. Efrog Newydd: Routledge.
19. Lemov, D. (2015) *Teach Like a Champion 2.0: 62 Techniques that Put Students on the Path to College*. CA: Jossey-Bass.

20. Llywodraeth Cymru. (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/c163e330-a978-4523-8ce6-b659af27a51f/cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf> [cyrchwyd: 02/01/2020]
21. Llywodraeth Cymru. (2019) *Addysg Yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*. Ar gael ar lein: https://dera.ioe.ac.uk/30138/4/170926-education-in-wales-cy_Redacted.pdf [cyrchwyd: 02/01/2020]
22. Llywodraeth Cymru. (2019) *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/64353d33-3104-4466-8f4e-15d8cf938c5a/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022.pdf> [cyrchwyd: 02/01/2020]
23. Llywodraeth Cymru. (2019) *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/04cb83d9-7c43-4c4a-8791-c14e4bf627d6/canllawiau-statudol-drafft-ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu.pdf> [cyrchwyd: 02/01/2020]
24. McFarlane, A. (2015) *Authentic Learning for the Digital Generation: Realising*

the potential of technology in the classroom. Llundain: Routledge.

25. Ofsted (2018) *The Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills 2017/18*. Ar gael ar lein:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761606/29523_Ofsted_Annual_Report_2017-18_041218.pdf
[cyrchwyd: 02/01/2020]
26. Organisation for Economic Co-operation and Development [OECD]. (2005) *Formative Assessment: Improving Learning in Secondary Classrooms*. Paris: OECD (CERI).
27. Pearce, S. (2016) *Authentic Learning: What, Why and How?* E-teaching, 10, tt. 1-3.
28. Piaget, J. (1976) *Piaget's theory. In Piaget and his school*. Springer Berlin Heidelberg, tt. 11-23.
29. Sampson, G. (1921) *English for the English: A Chapter on National Education*. Cambridge University Press.

30. Smith, S. (2018) *Becoming an Outstanding Languages Teacher*. Llundain: Routledge.
31. Smith, S & Conti, G. (2016) *The Language Teacher Toolkit*. Createspace Independent Publishing Platform.
32. Toh, P. C., Toh, T. L., & Kaur, B. (2014) *Learning Experiences To Promote Mathematics Learning*. Singapore: World Scientific Publishing Co. Pte. Ltd.
33. Tomlinson, C. A. (2001) *How to Differentiate Instruction In Mixed-Ability Classrooms*. (2ail argraffiad) Association for Supervision and Curriculum Development.
34. Waters, M. (2013) *Thinking Allowed on Schooling*. Crown House Publishing.
35. Wiliam, D. (2011) *Embedded Formative Assessment*. UDA: Solution Tree Press.

